Powys County Council
Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities for the year ending 12 May 2021. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

Councillor: Jackie Charlton	**Tel:**
Ward: Llangattock	**Mobile:** 07976928061 **text only**
Shire: Brecknockshire	**Email:** cllr.jackie.charlton@powys.gov.uk
Group: Welsh Liberal Democrats	**Date:** September, 2021

Section 1: Role & Responsibilities

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
Committees & attendance

I am now in the final year of representing Llangattock before the County Council elections in 2022. Being elected as a Councillor continues to be rewarding enabling me to represent Llangattock at the Council as a Welsh Liberal Democrat. Next year we will have boundary changes so things will offer a new challenge if elected again.

COVID has been a big issue for everyone. Our community has drawn on its support for each other and is getting through with fortitude and resilience as it did with flooding last year.

As the Welsh Liberal Democrat lead on Disability in our group I continue to support equality issues ensuring the voice of different disability groups are heard and listened to on the Powys strategic agenda.

I remain on the following outside organisations:
Llangattock Church in Wales School Governing Body
Crickhowell High School Governing Body
Powys Community Health Council [CHC]
Powys Standing Advisory Council for Religious Education [SACRE]
Brecknock Play Network

Section 2: Constituency activity

Case work in Llangattock has been constant and I really enjoy getting this done. Llangattock Community Council had an influx of new Councillors in 2020 and 2021. So much is going on now and the work we do together is rewarding and challenging. We may have good news on the Powys Active Travel plan to deliver to Llangattock in 2022 which will be part of the Powys Travel Plan Project application to Welsh Government this year.

The County Council surgery in the Community Hall changed to a Zoom event and i continued to deliver a monthly newsletter to residents which is posted on all notice

boards, on the Community Council website and my Facebook page. I intereact regularly with residents on Nextdoor which has over 260 members. Virtual work is here to stay and I welcome that.

I work very closely and actively with the Community Council on issues which directly affect residents including recreation ground improvements and a Village Vision. I have also worked very closely with Councillors in Crickhowell, Cwmdu/Bwlch and Llangorse on issues which affect us all including better interaction as a Five Councils body and flooding. Future activity in these areas are very exciting.

Section 3: Learning & Development

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:-
Member development & seminars

The Women's Equality Network retain my details as a County Councillor to Mentor for 2020. It remains a very rewarding role and all learning will be shared with Powys Democratic Services to support others who may wish to undertake such a role.

As an appointed Governor of Llangattock Church in Wales Primary and Crickhowell High School I continue to attend mandatory training, this is crucial for the role. Understanding the needs of our local schools is very important to the students and parents in the area. There have been many challenges this year for Crickhowell High School.

As a voting Member of Powys Community Health Council representing Powys County Council I continue to attend training as appropriate and provide other support for that role including participating in peer review and contributing to the strategic plan. The pandemic has meant a different way of working with the Health Board and has been incredibly good showing a resilience that all can benefit from. The next couple of years will bring with it new challenges as the CHC becomes the Citizens Voice and works alongside the County Council to Support and advocate social care in a new statutory remit.

The various Committees such as Economy, Residents and Community Scrutiny Committee, which I joined last year and Democratic Services Committee have provided extra learning and development opportunities.

Section 4: Outside organisations and other activities

Powys Community Health Council is now further forward as a result of a White Papers delivered by Welsh Government to change the structure and delivery of CHC's in Wales. As mentioned above the new body will undertake similar activities to those undertaken now in Healthcare and add in social care which will require greater participation from County Councillors in future. Holding the Health Board to account is an important role for the CHC but they also have a strong team of advocates who support individuals who have health care complaints. This will become increasingly important as the County Council and Health Board continue to follow through with closer working and active partnership. The Citizens Body is due to come on stream in 2023.

Cyngor Sir Powys
Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 12 Mai 2021. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Jackie Charlton	**Ffôn**
Ward: Llangatwg	**Ffôn symudol:** 07976928061 **testun yn unig**
Sir: Sir Frycheiniog	**E-bost:** cllr.jackie.charlton@powys.gov.uk
Grŵp: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	**Dyddiad:** Medi 2021

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phresenoldeb

Rwyf nawr yn fy mlwyddyn derfynol o gynrychioli Llangatwg cyn etholiadau'r Cyngor Sir yn 2022. Mae cael fy ethol fel Cynghorydd yn parhau i roi boddhad i mi gan fy nghalluogi i gynrychioli Llangatwg yn y Cyngor fel aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Flwyddyn nesaf, fe fydd y newidiadau ffiniau wedi cael eu cyflwyno felly fe fydd heriau newydd yn dod i'r amlwg os caf fy ethol eto.

Mae COVID wedi bod yn fater mawr i bawb. Mae ein cymuned wedi tynnu ar gefnogaeth tuag at ein gilydd ac yn symud ymlaen gyda chryfder a gwydnwch fel ag y gwnaeth gyda'r llifogydd y llynedd.

Fel arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar Anabledd yn ein grŵp, rwy'n parhau i gefnogi materion cydraddoldeb gan sicrhau bod llais gwahanol grwpiau anabledd yn cael ei glywed. Yn ogystal rwy'n sicrhau bod eu llais yn cael gwrandawiad teg ar agenda strategol Powys.

Rwyf wedi parhau i wasanaethu ar y sefydliadau allanol canlynol:
Corff Llywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg
Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Crughywel
Cyngor Iechyd Cymuned Powys [CHC]
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Powys ar gyfer Addysg Grefyddol
Rhwydwaith Chwarae Sir Frycheiniog

Adran 2: Gweithgareddau yr etholaeth

Mae gwaith achosion Llangatwg wedi bod yn gyson ac rwyf wirioneddol yn mwynhau cyflawni hyn. Mae Cyngor Cymuned Llangatwg wedi derbyn llu o Gynghorwyr newydd yn 2020 a 2021. Mae llawer yn digwydd ac mae'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd yn heriol ac yn werth chweil . Mae'n bosibl y bydd gennym newyddion da ar gynllun Teithio

Lleol Powys i'w gyflwyno i Langatwg yn 2022 a fydd yn rhan o gais Prosiect Cynllun Teithio Llesol Powys i Lywodraeth Cymru eleni.

Mae cymhorthfa'r Cyngor Sir yn y Neuadd Gymunedol wedi newid i ddigwyddiad Zoom ac rwyf yn parhau i gynhyrchu cylchlythyr misol i drigolion. Mae hwn yn cael ei roi ar hysbysfyrddau, gwefan y Cyngor Cymunedol ac ar fy nhudalen Facebook. Rwy'n rhyngweithio'n rheolaidd gyda thrigolion ar Nextdoor sydd â dros 260 o aelodau bellach. Mae fy ngwaith rhithiol yma i aros ac rwyf yn croesawu hynny.

Rwy'n cydweithio'n agos iawn ac yn weithgar gyda'r Cyngor Cymunedol ar faterion sy'n effeithio ar breswylwyr yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i dir hamdden a chwarae a Gweledigaeth i'r Pentref. Rwyf hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chynghorwyr yng Nghrughywel, Cwmdu/Bwlch a Llangors ar faterion sy'n effeithio ar bob un ohonom. Mae'r rhain yn cynnwys rhyngweithio'n well fel corff Pum Cyngor a llifogydd. Mae gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn ar gyfer y dyfodol yn gyffrous iawn.

Adran 3: Dysgu a Datblygu

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
Seminarau a Datblygu Aelodau

Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched wedi cadw fy manylion fel Cynghorydd Sir i Fentora ar gyfer 2020. Mae'n parhau i fod yn rôl werthfawr a bydd yr holl ddysgu'n cael ei rannu gyda Gwasanaethau Democrataidd Powys i gynorthwyo eraill a fyddai efallai am ymgymryd â rôl o'r fath.

Fel un o Lywodraethwyr penodedig Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg ac Ysgol Uwchradd Crughywel rwy'n dal i fynychu'r hyfforddiant gorfodol ac wedi gweld hyn yn gwbl angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'r rôl. Mae deall anghenion ein hysgolion lleol yn bwysig iawn i'r myfyrwyr a rhieni yn yr ardal. Mae nifer o heriau wedi bod eleni ar gyfer Ysgol Uwchradd Crughywel.

Fel Aelod sy'n pleidleisio ar Gyngor Iechyd Cymunedol Powys sy'n cynrychioli Cyngor Sir Powys, rwy'n parhau i fynychu hyfforddiant fel sy'n briodol ac yn darparu cefnogaeth arall ar gyfer y rôl honno. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid a chyfrannu at y cynllun strategol. Mae'r pandemig wedi golygu ffordd newydd o weithio gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae wedi bod yn arbennig o dda i ddangos cydnerthedd y gallwn oll elwa ohono. Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cyflwyno heriau newydd fel y daw'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn Llais y Dinesydd gan weithio ochr yn ochr gyda'r Cyngor Sir i gefnogi ac eirioli dros ofal cymdeithasol o fewn cylch gorchwyl statudol newydd.

Mae'r amrywiol Bwyllgorau fel y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Trigolion a'r Economi yr ymunais ag ef y llynedd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cyflwyno cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu a dysgu.

Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill

Mae Cyngor Iechyd Cymunedol Powys wedi symud ymlaen erbyn hyn o ganlyniad i Bapurau Gwyn a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru i newid strwythur a chyflawniad Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru. Fel y soniwyd uchod, bydd y corff newydd yn cynnal gweithgareddau tebyg i'r rheini a gyflawnir nawr mewn Gofal Iechyd gan ychwanegu gofal cymdeithasol a fydd yn gofyn am gyfranogiad mwy gan Gynghorwyr Sir yn y dyfodol. Mae'n hynod bwysig bod y Cyngor Iechyd Cymunedol yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn atebol am eu gwaith, ond hefyd bod ganddynt dîm cryf o eiriolwyr sy'n cefnogi unigolion y mae ganddynt gwynion am ofal iechyd. Fe ddaw hyn yn fwyfwy pwysig wrth i'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd barhau i roi sylw dilynol i gydweithio agosach a phartneriaethau cedyrn. Mae'r Corff Dinasyddion i ymuno â'r ffrwd waith yn 2023.